# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## UAL Diploma mewn Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu (Theatr Gerddorol) Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn ymarferol dros ben ac mae wedi'i arwain gan ddarlithwyr ac athrawon cyswllt a hyfforddwyd yn broffesiynol. Diben y cwrs yw datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddod yn berfformiwr perygl triphlyg. Byddwch chi'n cwblhau'r cwrs gan feddu ar ystod o ddeunydd cymhwyso sy'n addas ar gyfer astudiaethau Addysg Bellach neu astudiaethau conservatoire yn ogystal â sgiliau academaidd ac ymchwil perthnasol ar safon Lefel 3. Caiff sgiliau eu datblygu ym mhob un o'r disgyblaethau a bydd gwaith a dargedwyd yn y meysydd y mae angen i chi eu datblygu'r mwyaf.

Fel tîm y cwrs, rydym wedi ymrwymo i bob dysgwr a'i ddilyniant i astudiaethau addysg bellach o'i ddewis a'i baratoi i lywio'r diwydiant hynod gystadleuol hwn. Mae ein rhaglen o ddigwyddiadau allgyrsiol yn ogystal â gwibdeithiau tramor a gwibdeithiau ar draws y Deyrnas Unedig heb ei hail ac mae rhaglen fywiog ac amrywiol eisoes yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Rydym yn falch iawn o'n cysylltiadau â thimau addysgu conservatoire ledled y Deyrnas Unedig ac, ar adegau yn ystod y flwyddyn, rydym yn croesawu'r arbenigwyr hyn i fentora ein dysgwyr o ran ymarfer a pharatoi ar gyfer clyweliadau.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...Rydych chi'n angerddol am ddatblygu eich sgiliau fel perfformiwr.

...Hoffech chi ddatblygu eich aml ddoniau a pharatoi eich hun ar gyfer gyrfa yn y celfyddydau perfformio a diwydiannau cysylltiedig

...Rydych chi'n frwdfrydig am fod yn greadigol.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn yn addas i ddysgwyr sy'n symud o ennill cymwysterau ar lefel TGAU neu o gwrs Lefel 2 perthnasol sy'n mwynhau:

Dawns - Jazz a Bale
Actio ar gyfer y llwyfan a'r sgrin
Canu - Cefnogaeth Ensemble & Unawd
Perfformiad Theatr Gerddorol
Dyfeisio theatr
Cynhyrchu
Mynychu theatr fyw a sioeau cerdd
Paratoi ar gyfer clyweliad
Hunan-dâp

Mae'r aseiniadau yn seiliedig ar ymarfer a bydd y gwaith ysgrifenedig yn sail i'r sgiliau sy'n cael eu datblygu fel myfyriwr y celfyddydau perfformio. Bydd ymchwilio i bynciau ac ymarferwyr presennol a hanesyddol yn helpu i ffurfio eich perfformiadau a ddyfeisiwyd a'ch perfformiadau a gyfarwyddwyd.

Fel rhan o'ch cwrs, byddwch chi'n cymryd rhan mewn ystod o berfformiadau yn ystod y flwyddyn megis:

Dramâu
Dangosiadau ffilmiau
Darnau a ddyfeisiwyd
Ymsonau
Ystod o ddigwyddiadau allgyrsiol gan gwmnïau perfformio

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys theatr bwrpasol, stiwdio ddrama, stiwdio ddawns ac ardal ymarfer. Mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gwibdeithiau i wylio perfformiadau, cymryd rhan mewn gweithdai a gwrando ar siaradwyr yn rheolaidd. Caiff y cwrs hwn ei asesu'n barhaus trwy aseiniadau ymarferol ac aseiniadau ysgrifenedig, cyflwyniadau, perfformiadau a phortffolios gwaith. Ar gwblhau'r cwrs, byddwch chi'n ennill:

Cymhwyster Lefel 3 yn y Celfyddydau Perfformio
Gweithgareddau sgiliau
Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cwrs yma, bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 gyda Gradd Teilyngdod a TGAU yn cynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch.

Mae diddordeb brwd yn y celfyddydau perfformiadol a pharodrwydd i ymarfer y tu allan i amser coleg yn hanfodol. Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd llwyddo i gwblhau Blwyddyn 1 o'r Diploma sy'n werth 90 credyd yn galluogi dysgwyr i symud i'r ail flwyddyn a chwblhau'r Diploma Estynedig cyflawn.

Ar ôl hynny, mae'r llwybrau dilyniant yn cynnwys:

Lefel 4 diploma professiynol mewn Perfformio
Cyrsiau gradd mewn Drama, Dawns a Theatr Gerdd mewn prifysgolion neu gonservatoires ·
Cyfleodd am gyflogaeth/prentisiaethau yn y diwydiannau creadigol

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae clyweliad yn ofynnol fel rhan o ofynion mynediad y cwrs.